# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Tachwedd 2017

Amser: 09.18 - 10.48

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4368

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David J Rowlands AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | Laura Williams, Deisebydd<br>Alun Thomas, Hafal |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Claire O'Sullivan (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.  Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd

Datganodd Neil McEvoy y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Roedd wedi llofnodi'r ddeiseb i gefnogi'r mater.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- gwahodd y deisebydd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf a fydd ar gael; ac
- aros am ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gwestiynau manwl a holwyd mewn llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

Wedi i'r camau hyn gael eu cwblhau, cytunodd y Pwyllgor y bydd yn ystyried eto a ddylid ceisio amser ar gyfer dadl ynghylch y ddeiseb yn y Cyfarfod Llawn.

### 2.2 P-05-786 Arbedwch ein cefn gwlad - dylid adolygu TAN 1

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros i glywed barn y deisebydd ynghylch ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig cyn penderfynu ar unrhyw gamau pellach i'w cymryd.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-526 Gwnewch Senedd TV yn hygyrch i bobl fyddar

Trafododd yr Aelodau ohebiaeth gan y Llywydd yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad a chytunodd i aros am ymateb gan y deisebydd i'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd cyn penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.

## 3.2 P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc

Trafododd yr Aelodau ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i gysylltu eto ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am fanylion yr amserlenni y mae'n eu bwriadu ar gyfer cynnal yr adolygiad o Fframwaith Anhwylderau Bwyta Llywodraeth Cymru.

## 3.3 P-05-761 Mynnu cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Autism Spectrum Connections Cymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Autism Spectrum Connections Cymru, ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd, a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol i ofyn am fanylion y prosesau a ddilynwyd adeg dyfarnu cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, ac a roddwyd cyfleoedd i sefydliadau'r trydydd sector wneud cais.

## 3.4 P-05-763 Diweddaru'r cyngor a roddir ynghylch strôc – B.E.F.A.S.T. – a helpu i achub bywydau a bywoliaethau

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Gymdeithas Strôc, ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd i:

- ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn a yw'n credu y gallai Llywodraeth Cymru neu'r Grŵp Gweithredu Strôc gymryd unrhyw gamau ychwanegol i sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymwybodol o symptomau ychwanegol strôc, fel problemau gyda golwg a chydbwysedd; ac wrth wneud hynny
- cau'r ddeiseb, o ystyried y cyngor a gafwyd gan y Gymdeithas Strôc a barn y Grŵp Gweithredu Strôc mai prin yw'r dystiolaeth i gefnogi newid y negeseuon cyfredol ynghylch symptomau strôc, a rhoi diolchiadau'r Pwyllgor i'r deisebydd am gyfrannu at drafodaeth ddefnyddiol ar y mater hwn.

### 3.5 P-04-667 Cylchfan ar gyfer Cyffordd yr A477/A4075

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ac, o ystyried natur fanwl y wybodaeth a ddarparwyd, cytunodd i roi mwy o amser i'r deisebwyr baratoi sylwadau cyn ystyried unrhyw gamau pellach ynghylch y ddeiseb.

### 3.6 P-05-716 Cludiant am ddim ar drenau i ddisgyblion ysgol gyda Threnau Arriva Cymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a chytunodd i aros am farn y deisebydd am yr ohebiaeth ddiweddaraf, ynghyd ag ymateb i wybodaeth y gofynnwyd amdani'n flaenorol gan Trenau Arriva Cymru, cyn ystyried unrhyw gamau pellach ynghylch y ddeiseb.

### 3.7 P-05-770 Ailagor Gorsaf Drenau Crymlyn

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth a chytunodd aros am farn y deisebydd am hyn cyn ystyried unrhyw gamau pellach ynghylch y ddeiseb.

### 3.8 P-05-774 Ewch Heibio’n Llydan ac yn Araf (Cymru)

Trafododd yr Aelodau ohebiaeth gan Gymdeithas Ceffylau Prydain ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd i ysgrifennu at:

- Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn am amlinelliad o'r gweithgareddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â nhw i gyflawni'r camau gweithredu perthnasol yn y Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd; a'r
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i ofyn a yw'r heddluoedd yng Nghymru wedi gwneud unrhyw waith i wella diogelwch ceffylau a marchogion sy'n defnyddio'r

ffyrdd, gan gynnwys hyrwyddo ymgyrchoedd i atal pobl rhag mynd heibio'n agos.

### 3.9 P-05-775 Cau'r bwlch gweithredu tacsis yn drawsffiniol ac is-gontractio

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd, a chytunodd i aros nes bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'i hymgynghoriad cyhoeddus diweddar ynghylch diwygiadau posibl i drwyddedu tacsis, a ddisgwylir cyn diwedd 2017, cyn ystyried camau pellach ynghylch y ddeiseb.

### 3.10 P-05-778 Amddiffyn y Cyllyll Môr ar Draeth Llanfairfechan

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd, a chytunodd i ysgrifennu eto at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn am gadarnhad na fydd y bysgodfa'n cael ei hailagor nes bod canlyniadau'r asesiad stoc yn cael eu hystyried.

### 3.11 P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i Bawb

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan CLlLC, ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd i:

- ysgrifennu at Gymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD) Cymru i ofyn am ei barn am y materion a gododd yn y ddeiseb, yn enwedig addysgu iaith arwyddion Prydain mewn ysgolion, ac addysgu drwy'r iaith honno; a
- dwyn ynghyd amlinelliad o'r dystiolaeth a ddaeth i law fel y gall yr Aelodau benderfynu a ddylid llunio adroddiad ar ystyriaeth y Pwyllgor o'r ddeiseb.

## 4 Sesiwn dystiolaeth ar gyfer P-05-736 Gwneud gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy hygyrch

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd yr Aelodau y cynnig.

## 6 Trafodaeth o sesiynau tystiolaeth blaenorol

### 6.1 P-05-736 Gwneud gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy hygyrch

### 6.2 P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn Ddeddf

Trafododd yr Aelodau y sesiynau tystiolaeth a gynhaliwyd ar 3 Hydref a 7 Tachwedd mewn perthynas â'r ddeiseb hon a P-04-575 Galw i mewn pob cais cynllunio ar gyfer cloddio glo brig, a chytunodd i lunio adroddiad ar ystyriaeth y Pwyllgor o'r ddwy ddeiseb.

### 6.3 P-04-575 Galw i mewn bob cais cynllunio ar gyfer cloddio glo brig

## 7 Trafod crynodeb - P-04-564 Adfer gwlâu i gleifion, gwasanaeth mân anafiadau ac uned pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog

Trafododd yr Aelodau y crynodeb drafft a diwygiadau pellach, a chytunodd i'w cyhoeddi wedi iddynt gael eu cwblhau.